



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru

Chwefror 2014

CYNNWYS

Cyflwyniad	2
Cefndir	4
Ymrwymadau Gwladol, Ewropeaidd a Rhyngwladol	5
Ardaloedd Morol Gwarchodedig Presennol yng Nghymru	7
Asesiad o Ardaloedd Morol Gwarchodedig Presennol	13
Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig	16
Atodiad	17

CYFLWYNIAD

1. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno adroddiad Llywodraeth Cymru ar y rhwydwaith ardaloedd morol gwarchodedig i'r Cynulliad Cenedlaethol, hynny fel ymateb i argymhelliad 10 yr Ymchwiliad i Bolisi Morol Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

Argymhelliad 10. Erbyn 31 Rhagfyr 2013, y bydd Llywodraeth Cymru yn gosod adroddiad gerbron y Cynulliad o'i gwirfodd sy'n bodloni'r gofyniad yn adran 124 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Glannau 2009. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys arfarniad o statws amgylcheddol, llywodraethu a gorfodi mewn ardaloedd morol gwarchodedig presennol.

2. Mae adran 124 Deddf y Môr a Mynediad i'r Glannau 2009 (Deddf y Môr) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i ddangos i ba raddau y mae wedi cyflawni amcanion Deddf y Môr i ddefnyddio safleoedd cadwraeth i gyfrannu at rwydwaith ardaloedd morol gwarchodedig y DU. Rhaid i'r adroddiad hefyd ymdrin â'r camau nesaf y mae angen eu cymryd i gyflawni amcanion y rhwydwaith, yn ogystal â manylion penodol unrhyw Barthau Cadwraeth Morol sydd wedi'u dynodi.

3. Amcanion y rhwydwaith, fel y'u disgrifir yn adran 123 Deddf y Môr yw bod Parthau Cadwraeth Morol ynghyd â safleoedd morol Ewropeaidd (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a safleoedd Ramsar yn ffurfio rhwydwaith sy'n cyfrannu at warchod neu wella amgylchedd y môr yn ardal forol y Deyrnas Unedig; bod y nodweddion a warchodir gan safleoedd y rhwydwaith yn cynrychioli'r ystod o nodweddion sy'n bresennol yn ardal forol y Deyrnas Unedig; ac yn cydnabod y gallai gwarchod nodwedd ofyn am ddynodi mwy nag un safle. Mae Deddf y Môr hefyd yn darparu'r pŵer i ddynodi Parthau Cadwraeth Morol er mwyn gwneud yn iawn am unrhyw ddiffygion yn y rhwydwaith.

4. Mae'r adroddiad yn cael ei osod yn wirfoddol o dan reol sefydlog 15.2.

5. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2013 ac yn diweddarau adroddiad y flwyddyn ddiwethaf¹. Mae'n ymwneud dyfroedd glannau Cymru, sef rhannau'r rhwydwaith y mae Gweinidogion Cymru'n gyfrifol amdanynt. Mae sefydlu ardaloedd morol gwarchodedig yn y dyfroedd hyn yn gyfrifoldeb datganoledig. Mae dyfroedd glannau Cymru'n golygu'r môr hyd at 12 milltir forol o'r lan.

¹ <http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=241812&ds=12/2012>

CEFNDIR

6. Bydd Ardaloedd Morol Gwarchodedig (AMG) yng Nghymru'n cyfrannu at rwydwaith y Deyrnas Unedig a rhyngwladol lle bo rhwydwaith o safleoedd sydd wedi'u dylunio'n dda ac yn cael eu rheoli'n dda yn dod â mwy o fanteision o safbwynt bioamrywiaeth ac ar lefel ehangach na'r rheini a geir gan safleoedd unigol.

7. Sefydlu AMG yw un o'r ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru reoli a gwella'r amgylchedd morol yng Nghymru, gan weithio tuag at ein gweledigaeth o foroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol ac amrywiol fiolegol. Mae'r rhwydwaith AMG yn cynnwys yr holl wahanol fathau o ardaloedd morol gwarchodedig sy'n cael eu cynnal i gefnogi bioamrywiaeth. Bydd rhwydwaith sydd wedi'i gynllunio'n dda yn cynnwys AMG o wahanol feintiau ar gyfer gwahanol gynefinoedd a rhywogaethau a bydd symudiadau rhywogaethau llawndwf a larfâu yn gallu mynd o un i'r llall er lles diogelu'r fioamrywiaeth.

8. Mae adran 123 Deddf y Môr yn darparu ar gyfer sefydlu rhwydwaith o ardaloedd morol gwarchodedig sydd:

- yn cyfrannu at warchod neu wella'r amgylchedd morol yn ardal forol y DU;
- yn cynrychioli'r ystod o nodweddion a geir yn ardal forol y DU;
- yn adlewyrchu'r ffaith y gallai gwarchod nodwedd ofyn am ddynodi mwy nag un safle.

9. Mae Deddf y Môr hefyd yn datgan y bydd y rhwydwaith yn cynnwys:

- Safleoedd Morol Ewropeaidd; Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig;
- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig;
- safleoedd Ramsar;
- Parthau Cadwraeth Morol.

YMRWYMIADAU GWLADOL, EWROPEAIDD A RHYNGWLADOL

10. Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â gweinyddiaethau eraill y DU, wedi llofnodi nifer o ymrwymadau cenedlaethol a rhyngwladol i warchod bioamrywiaeth y môr; mae'r rhain yn cynnwys nifer o ymrwymadau i gynnal rhwydwaith cydlynol o ardaloedd morol gwarchodedig.

Gwladol

- **Datganiad Polisi Morol y DU:** mae gweinyddiaethau'r DU yn ymrwymedig i gwblhau rhwydwaith ecolegol gydlynol o ardaloedd morol gwarchodedig fel rhan o waith eang i warchod natur yn y DU a helpu i wireddu'r weledigaeth o foroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol ac amrywiol fiolegol²;

Ewropeaidd

- **Y Gyfarwydddeb Adar Gwyllt a'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd:** mae'r Gyfarwydddeb Adar Gwyllt yn gofyn am fesurau gwarchod gofodol ar gyfer pob aderyn gwyllt sy'n bod yn naturiol, yn ogystal â mesurau i warchod adar mudol. Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yw'r enw ar yr ardaloedd hyn. Mae'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd yn gofyn am Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ar gyfer diogelu cynefinoedd a rhywogaethau o bwys Ewropeaidd. Gyda'i gilydd, rhwydwaith Natura 2000 yw'r safleoedd hyn, sef rhwydwaith yr UE gyfan o ardaloedd gwarchod natur sydd â'r nod o sicrhau bod y rhywogaethau a'r cynefinoedd mwyaf gwerthfawr ac sydd dan y bygythiad mwyaf yn Ewrop yn goroesi yn yr hirdymor;
- **Cyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol:** mae Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda gweinyddiaethau eraill, wedi ymrwymo i gyfrannu at sicrhau Statws Amgylcheddol Da ar gyfer moroedd Ewrop erbyn 2020. Fel rhan o'n rhaglen o fesurau i sicrhau statws amgylcheddol da, rhaid cyfrannu at rwydwaith o ardaloedd morol gwarchodedig erbyn diwedd 2016 sy'n gydlynol a chynrychioliadol;

² <http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/marinefisheries/planning/?skip=1&lang=cy;>

Rhyngwladol

- **Confensiwn Oslo-Paris** er Gwarchod Amgylchedd Morol Gogledd-ddwyrain Cefnfor Iwerydd (OSPAR): mae'r gwledydd sy'n ffinio â Gogledd-ddwyrain Cefnfor Iwerydd, gan gynnwys y DU, wedi cytuno i sefydlu rhwydwaith ecolegol gydlynol o ardaloedd morol gwarchodedig yng Ngogledd-ddwyrain Cefnfor Iwerydd erbyn 2012 a sicrhau'i fod yn cael ei reoli'n dda erbyn 2016;
- **Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol**: yr ymrwymiad i sefydlu system fyd-eang o ardaloedd morol gwarchodedig sy'n gynrychioliadol ac yn cael ei rheoli'n effeithiol.

ARDALOEDD MOROL GWARCHODEDIG PRESENNOL YNG NGHYMRU

11. Ar hyn o bryd mae 125 o ardaloedd morol gwarchodedig yng Nghymru, sy'n cynnwys:

- 11 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig;
- 6 o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig;
- 103 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig;
- 4 safle Ramsar; ac
- 1 Warchodfa Natur Forol

12. Nid oes unrhyw Barthau Cadwraeth Morol yng Nghymru ar hyn o bryd. Cafodd y deg safle yr ymgynghorwyd arnynt yn 2012 eu tynnu'n ôl yn ffurfiol yng nghyhoeddiad y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn ei ddatganiad ysgrifenedig ar 18 Gorffennaf 2013.³

13. Mae crynodeb ar AMG Cymru i'w weld ym Mlwch 1 ac mae map o AMG Cymru i'w weld ar dudalen 9. Er bod AMG yn cael eu dynodi fel safleoedd ar wahân, yn ymarferol mae llawer o'r safleoedd hyn yn gorgyffwrdd⁴, gan adlewyrchu'r amcanion a'r fframweithiau gwahanol sy'n llywio'r prosesau dewis ar gyfer dynodiadau.

Ardaloedd Cadwraeth Arbennig

14. Mae 11 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yn nyfroedd Cymru gan gynnwys dau safle trawsffiniol â Lloegr (Aber Hafren ac Aber Dyfrdwy). Mae'r safleoedd hyn wedi cael eu nodi yn unol â'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd ac maent yn diogelu planhigion, anifeiliaid a chynefinoedd prin, arbennig neu dan fygythiad yn Ewrop.

15. Mae'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd yn darparu ar gyfer sefydlu rhwydwaith ecolegol gydlynol Ewropeaidd o AGAoedd ac ACAoedd – rhwydwaith Natura 2000 fel y'i gelwir. Nod y rhwydwaith yw sicrhau bod mathau o gynefinoedd naturiol a chynefinoedd y rhywogaethau yn cael eu cynnal neu'u hadfer at statws cadwraeth ffafriol.

³ <http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/mcz/?skip=1&lang=cy>

⁴ Mae'r ffigurau ym Mlwch 1 wedi ystyried y safleoedd sy'n gorgyffwrdd.

Blwch 1. Crynodeb o'r AMG ym moroedd Cymru (hyd at 12 môr-filltir).

Crynodeb o AMG ym moroedd Cymru (Marc Penllanw Cymedrig i 12 môr-filltir)

Nifer y safleoedd

ACA = 11

AGA = 6*

SoDdGA = 103

Ramsar = 4

Gwarchodfa Natur Forol = 1**

Cyfanswm nifer yr AMG = 125

Arwynebedd moroedd Cymru o dan ddynodiad

Moroedd Cymru (Marc Penllanw Cymedrig i 12 môr-filltir) = 15,942 km²

ACA = 5,007 km²

AGA = 1,314 km²

SoDdGA = 421 km²

Ramsar = 240 km²

Gwarchodfa Natur Forol = 13 km²

Cyfanswm rhwydwaith yr AMG = 5,592 km²

Arwynebedd moroedd Cymru o dan ddynodiad

ACA = 31.41%

AGA = 8.08%

SoDdGA = 2.64%

Ramsar = 1.21%


Gwarchodfa Natur Forol = 0.08%

Cyfanswm rhwydwaith yr AMG = 35.08%

* O'r 10 AGA yn nyfroedd Cymru, dim ond 6 sy'n aberoedd neu'n safleoedd morol gwirioneddol lle mae'r rhywogaethau adar yn dibynnu ar yr amgylcheddol morol ar y safle ac felly'n gymwys i fod yn AMG OSPAR. O ganlyniad, dim ond 6 AGA sydd wedi'u cynnwys a'r asesiad o'r rhwydwaith.

**Bydd Gwarchodfa Natur Forol Sgomer yn Barth Cadwraeth Morol (MCZ) wedi i'r darpariaethau perthnasol yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Glannau (2009) gychwyn.

Ffigur 1. Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn nyfroedd Cymru



16. Mae'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd yn cyflwyno egwyddorion digonolrwydd, gwasgariad naturiol a chymesuredd i nodi nifer ac arwynebedd yr ACAoedd sydd eu hangen i gyfrannu mewn ffordd arwyddocaol at gynnal neu adfer statws cadwraeth ffafriol ac i adlewyrchu nifer y cynefinoedd neu'r rhywogaethau hynny yn nhiriogaeth y wlad dan sylw. Felly, gallai'r rhwydwaith ACA yn y DU ddiogelu nodweddion morol ar fwy nag un safle i sicrhau y caiff egwyddorion gwasgariad naturiol, digonolrwydd a chymesuredd eu bodloni. Mae rhestr lawn o'r ACAoedd a'u buddiannau morol i'w gweld yn Nhabl 2 yr Atodiad.

Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig

17. Mae 6 o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yn nyfroedd Cymru, naill ai'n rhai aberol neu'n rhai gwirioneddol forol, gan gynnwys 3 safle trawsffiniol â Lloegr (Aber Hafren, Aber Dyfrdwy a Bae Lerpwl).

18. Mae'r safleoedd hyn wedi cael eu nodi o dan y Gyfarwydddeb Adar Gwyllt ac maent yn diogelu ardaloedd a nodwyd am eu bod yn bwysig fel safleoedd bridio, bwydo, gaeafu neu fudo pwysig i rywogaethau adar prin a bregus Ewrop. Nid yw'r Gyfarwydddeb Adar Gwyllt yn amlinellu meini prawf dewis ffurfiol ar gyfer AGAoedd, felly mae'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur wedi datblygu canllawiau dewis ar y cyd â chyrff cadwraeth natur statudol cenedlaethol ac adrannau llywodraethau yn y DU. Mae'r canllawiau hyn yn cynnig sylfaen ar gyfer dewis y "tiriogaethau mwyaf addas o ran arwynebedd a nifer" fel sy'n ofynnol gan y Gyfarwydddeb Adar Gwyllt.

19. Mae rhestr lawn o'r AGAoedd yn nyfroedd Cymru a'u buddiannau morol cysylltiedig i'w gweld yn Nhabl 1 yr Atodiad.

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

20. Mae 103 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yng Nghymru a chanddynt nodweddion morol. Rhyngddynt, dyna 421 km² i ddiogelu amrywiaeth eang o gynefinoedd, fel riffiau llyngyr diliau a gwelyau morwellt.

21. Mae SoDdGA yn gyfres genedlaethol o safleoedd sy'n diogelu rhywogaethau, cynefinoedd a nodweddion daearegol neu ffisiograffig pwysig yn y DU. Hefyd defnyddir y safleoedd hyn i ategu dynodiadau cadwraeth natur gwladol a rhyngwladol eraill. Mae SoDdGAoedd yn diogelu nodweddion pwysig fel morfeydd heli, creigresi (riffiau) a graean lleidiog. Maent yn diogelu nodweddion daearegol fel geomorffoleg Glannauol, ffurfiannau creigiau sy'n cael eu datgelu a ffosiliau yn yr ardal forol neu rynglanw.

22. Gall dynodiad SoDdGA ymestyn i ardaloedd rhynglanw, a weithiau mae ffiniau'n ymestyn ymhellach mewn aberoedd a dyfroedd amgaeedig eraill, felly gallant gynnwys elfennau morol.

23. Mae rhestr lawn o'r SoDdGA yng Nghymru sy'n cynnwys elfennau morol i'w gweld yn Nhabl 3 yr Atodiad.

RAMSAR

24. Mae 4 safle Ramsar yng Nghymru ag elfen forol; ym mhob achos mae'r safleoedd hyn yn gorgyffwrdd ag ACA neu AGA, sef Aber Hafren, Moryd Byrri, Cors Fochno, Aber Dyfi ac Aber Dyfrdwy. Mae'r gorgyffwrdd hwn o ran dynodiadau yn dangos lle gellir dynodi ardaloedd cymhleth neu bwysig â phwysigrwydd ecolegol o dan nifer o wahanol egwyddorion gwladol neu rhyngwladol i ddiogelu'r ystod a'r nodweddion a welir.

25. Gwlyptiroedd â phwysigrwydd rhyngwladol yw safleoedd Ramsar, sydd wedi'u dynodi o dan Gonfensiwn Ramsar. Gall gwlyptiroedd gynnwys ardaloedd o ddŵr morol nad yw'n ddyfnach na chwe metr adeg llanw isaf, a gallant hefyd gynnwys glannau nentydd, afonydd, pyllau neu gyrsiau dŵr a pharthau Glannauol gerllaw'r gwlyptiroedd, ac ynysoedd neu gyrff dŵr morol sy'n ddyfnach na chwe metr adeg llanw isaf o fewn y gwlyptiroedd.

26. Caiff safleoedd eu nodi gan ddefnyddio meini prawf sy'n cydnabod:

- safleoedd sy'n cynnwys mathau cynrychioliadol, prin neu unigryw o wlyptiroedd;
- safleoedd sydd o bwysigrwydd rhyngwladol ar gyfer gwarchod amrywiaeth biolegol (gan gynnwys rhywogaethau, cymunedau ecolegol a meini prawf penodol o ran adar dŵr, pysgod neu ddosbarthau eraill).

27. Nid ydym wedi cynnwys rhestr o safleoedd Ramsar a buddiannau morol yn yr adroddiad hwn gan fod dynodiadau eraill yn eu hategu sy'n gwarchod yr un nodweddion.

Gwarchodfa Natur Forol

28. Mae un Warchodfa Natur Forol yn nyfroedd Cymru, sef Gwarchodfa Natur Forol Sgomer a ddynodwyd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Wedi i Ran V Deddf y Môr yng Nghymru gychwyn, bydd pwerau dynodi'r Parthau Cadwraeth Morol yn cymryd lle pwerau'r Warchodfa Naturiol, a bydd Gwarchodfa Natur Forol Sgomer yn troi'n Barth Cadwraeth Morol Sgomer yn awtomatig. Rydym yn bwriadu dechrau Rhan V Deddf y Môr yn 2014.

ASESU ARDALOEDD MOROL GWARCHODEDIG YN ÔL ADRAN 123 DEDDF Y MÔR 2009

29. Mae gweinyddiaethau'r DU wedi ymrwymo i sefydlu ardaloedd morol gwarchodedig a rhwydwaith ecolegol gydlynol o ardaloedd morol gwarchodedig drwy nifer o gytundebau rhyngwladol. Bydd dod ag ardaloedd morol gwarchodedig ynghyd mewn rhwydwaith cydlynol, gyda mesurau rheoli amgylcheddol ehangach yn sail iddo, yn sicrhau manteision yn fwy effeithiol na thrwy ardaloedd morol gwarchodedig unigol ac ar wahân.

30. Mae'r DU yn gweithio at gyfrannu at rwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng ngogledd ddwyrain Cefnfor Iwerydd⁵. Byddai rhwydwaith yng ngogledd ddwyrain Cefnfor Iwerydd yn adlewyrchu confensiwn OSPAR ac yn gyson hefyd â'r rhanbarth morol y mae dyfroedd y DU ynddo o dan Gyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.

31. Nid oes cytundeb ynghylch y diffiniad o rwydwaith cydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Er hynny, mae Comisiwn OSPAR wedi datblygu set o egwyddorion sydd wedi'u mabwysiadu gan weinyddiaethau'r DU. Mae'r egwyddorion hyn yn ein helpu i ddeall sut olwg fydd ar y rhwydwaith ac yn ein helpu i ddehongli'r cysyniad o gydlyniant ecolegol. Adlewyrchir yr egwyddorion hyn yn amcanion y rhwydwaith AMG fel y'u disgrifir yn adran 123 Deddf y Môr.

32. Dyma egwyddorion OSPAR ar gyfer dylunio'r rhwydwaith:

- i) Nodweddion – yr ystod o gynefinoedd a rhywogaethau y dylid eu cynrychioli yn y rhwydwaith

⁵ Cyfraniad y DU at rwydwaith ecolegol gydlynol o ardaloedd morol gwarchodedig yng ngogledd ddwyrain Cefnfor Iwerydd:

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/marinefisheries/conservation/protected/network-statement/?skip=1&lang=cy>

- ii) Digonolrwydd – bod cyfran ddigonol o wasgariad pob nodwedd yn y rhwydwaith
- iii) Cysylltedd – bod amrywiaeth dda o ardaloedd morol gwarchodedig a bod digon o gysylltiadau rhyngddynt
- iv) Cydnerth – bod digon o enghreifftiau o'r nodweddion gofynnol ar y safle a bod y safle'n ddigon mawr i gynnal ei integriti.
- v) Rheolaeth – yn effeithiol fel bod y rhwydwaith yn cyfrannu at warchod a gwella amgylchedd y môr.

33. Ystyrir bod rhwydwaith AMG yn ecolegol gydlynol os yw'n bodloni'r egwyddorion dylunio hyn.

34. Rydym ni'n credu bod y 125 o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru'n gwneud cyfraniad arwyddocaol at rwydwaith sy'n ecolegol gydlynol. Ond mae angen gwneud mwy i gynyddu eu cyfraniad. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn yn ffurfiol i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ymgynghori ar estyn y tair Ardal Gwarchodaeth Arbennig adar môr – ynysoedd Gwales, Skokholm a Sgomer – tua'r môr. Bydd eu hestyn tua'r môr yn gwarchod y moroedd ger y nythfeydd ar yr ynysoedd hyn er mwyn i adar o sawl rhywogaeth gael twtio'u pluf, ymolch, gorffwys, arddangos a dilyn patrymau ymddygiad eraill. Adar fel y pâl, yr hugan, aderyn drycin Manaw a'r gwylog. Y bwriad yw cychwyn yr ymgynghoriad ddechrau 2014. Yn unol â'r arfer gorau, rydym yn cynnal asesiad o effaith economaidd-gymdeithasol y newidiadau arfaethedig ar bob safle.

35. Hefyd, mae'r angen am AGAoedd cwbl forol yn cael ei ystyried ar lefel y DU. Mae hyn yn cynnwys edrych ar grynodiadau ar y glannau o adar dŵr nad ydynt yn magu⁶ a chrynodiadau yn y môr o adar y môr⁷. Amcan y rhaglen gydweithredol yw

⁶ Yn cynnwys hwyaid a gwyddau ac ati a rhydyddion sy'n byw yn neu o gwmpas amgylchedd y môr

⁷ Adar sy'n treulio'r rhan fwyaf o'u bywydau ar y môr ond sy'n dod i'r tir fel arfer i glwydo neu i fagu yn unig

clustnodi'r holl ardaloedd sy'n addas ar gyfer adar y môr. Y rhywogaethau sy'n cael eu hystyried ar gyfer y gwaith yw'r wylan fechan, aderyn drycin Manaw, y trochydd gyddfgoch, môr-wennol y Gogledd, y fôr-wennol big-ddu a'r fôr-wennol fechan. Os gwelir bod ardal addas ar gyfer yr adar hyn, yna cynhelir ymgynghoriad llawn ar unrhyw safleoedd posibl a welir.

36. Gyda'r gwaith hwn, rydym am gynnal asesiad o'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig a geir yng Nghymru. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall ein cyfraniad at y rhwydwaith a'i gymharu ag egwyddorion y rhwydwaith. Byddwn yn parhau i weithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU ar y dull mwyaf priodol o asesu'r rhwydwaith a chyfraniad Cymru ato. Bydd angen i hyn gysylltu â'n hymrwymiaadau i'r rhwydwaith o dan Ddeddf y Môr a'r rhwydwaith ehangach yng ngogledd ddwyrain Cefnfor Iwerydd. Byddwn yn defnyddio canlyniad yr asesiad i weld a oes bylchau yn y rhwydwaith y gallai Cymru helpu i'w cau.

37. Os gwelir bod bylchau, byddwn yn gweithio ar y cyd ag amrywiaeth o randdeiliaid i ystyried opsiynau posibl ar gyfer cynnal cyfraniad Cymru at rwydwaith cydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

38. Byddai hynny'n gyson â darganfyddiadau'r Tîm Gorchwyl a Gorffen ar Barthau Cadwraeth Morol. Cyhoeddodd y tîm adroddiad⁸ a oedd yn cynnig nifer o argymhellion ar gyfer Parthau Morol yn y dyfodol yng Nghymru. Cytunodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd â'r argymhellion hyn a chynigiodd y camau nesaf ar gyfer Parthau Cadwraeth Morol yng Nghymru mewn datganiad ysgrifenedig ym mis Gorffennaf 2013.⁹

8 Adroddiad y Tîm Gorchwyl a Gorffen ar Barthau Cadwraeth Morol yng Nghymru, Ebrill 2013

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/marinefisheries/conservation/protected/conservationzones/nextsteps/?skip=1&lang=cy>

⁹ <http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/mcz/?skip=1&lang=cy>

Rheoli Ardaloedd Gwarchodedig Morol

39. Er mwyn cyfrannu at warchod neu wella amgylchedd y môr yn ardal forol y DU, mae angen i Ardaloedd Gwarchodedig Morol fod mewn cyflwr da a rhaid eu rheoli'n dda i'w cadw yn y cyflwr hwnnw. Yn dilyn gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn 2012 ar adolygiad o'r modd y rheolir yr Ardaloedd hyn yng Nghymru, mae CNC a Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar gyfres o egwyddorion cytûn ar gyfer rheoli Ardaloedd Gwarchodedig Morol yng Nghymru. Er mwyn gallu rheoli'r Ardaloedd hyn yn well a gwella cyfwr safleoedd, rhaid wrth:

- Arweiniad
- Cydgysylltu a Chysondeb
- Blaenoriaethu
- Cydweithio
- Cyfathrebu

40. I ddechrau cynnal yr egwyddorion hyn, bydd Llywodraeth Cymru a CNC yn creu Grŵp Llywio ar Reoli AMG Cymru i drefnu bod Ardaloedd Gwarchodedig ym moroedd Cymru yn cael eu rheoli'n strategol. Bwriad y grŵp yw sicrhau bod y rhwydwaith Ardaloedd Gwarchodedig Morol yng Nghymru yn cael ei reoli'n effeithiol, er mwyn diogelu bioamrywiaeth y môr a darparu manteision ecosystem a manteision economaidd-gymdeithasol ehangach i Gymru.

41. Ceir nifer o fentrau a fydd yn dylanwadu ar waith y Grŵp Llywio. Un o'r rheini yw prosiect a noddir gan yr UE, rhaglen LIFE Natura 2000. Bydd y fenter yn arwain at gynllun strategol, wedi'i flaenoriaethu a'i gostio ar gyfer rheoli ac adfer safleoedd Natura 2000 yng Nghymru er lles eu cadwraeth. Mae gan y fenter gysylltiadau clos â Rhaglen Safleoedd Arbennig CNC. Mae'r rhaglen hon yn defnyddio cronfa ddata o weithredoedd i gynllunio a chyfathrebu gweithredoedd ar gyfer rheoli gwaith cadwraethol.

Atodiad 1

Tabl 1 Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig â nodweddion morol yng Nghymru

Mae rhywogaethau â * yn adar cymwys ond nad ydynt yn defnyddio rhan forol yr AGA. Nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr asesiad o'r rhwydwaith.

Cafodd y rhywogaethau â ** eu nodi yn adolygiad 2001 o'r AGAoedd fel adar â photensial i fod yn gymwys. O'r herwydd, cawsant eu cynnwys yn yr asesiad o'r rhwydwaith.

AGA	Nodwedd Forol
AGA Aber Dyfrdwy / Dee Estuary SPA	Hwyaden Lostfain <i>Anas acuta</i> Corhwyaden <i>Anas crecca</i> Chwiwell <i>Anas penelope</i> Pibydd y Tywod <i>Calidris alba</i> Pibydd y Mawn <i>Calidris alpina</i> Pibydd yr Aber <i>Calidris canutus</i> Pioden y Môr <i>Haematopus ostralegus</i> Rhostog Gynffonfraith <i>Limosa lapponica</i> Rhostog Gynffonddu <i>Limosa limosa</i> Gylfinir <i>Numenius arquata</i> Mulfran <i>Phalacrocorax carbo</i> Cwtiad Llwyd <i>Pluvialis squatarola</i> Môr-wennol Gyffredin <i>Sterna hirundo</i> Môr-wennol fechan * <i>Sterna albifrons</i> Môr-wennol bigddu <i>Sterna sandvichensis</i> Hwyaden yr Eithin <i>Tadorna tadorna</i> Pibydd Coesgoch <i>Tringa tetanus</i> Hwyaden Wyllt <i>Anas platyrhynchos</i>**
AGA Bae Caerfyrddin / Carmarthen Bay SPA	Môr-hwyaden ddu <i>Melanitta nigra</i>

AGA Moryd Burry/Burry Inlet SPA	Hwyaden Lostfain <i>Anas acuta</i> Hwyaden Lydanbig <i>Anas clypeata</i> Corhwyaden <i>Anas crecca</i> Chwiwell <i>Anas penelope</i> Pibydd y Mawn <i>Calidris alpina</i> Pibydd yr Aber <i>Calidris canutus</i> Pioden y Môr <i>Haematopus ostralegus</i> Gylfinir <i>Numenius arquata</i> Cwtiad Llwyd <i>Pluvialis squatarola</i> Hwyaden yr Eithin <i>Tadorna tadorna</i> Pibydd Coesgoch <i>Tringa tetanus</i> Rhostog Gynffonddu <i>Limosa limosa</i> **
AGA Bae Lerpwl (Cymru) / Liverpool Bay SPA	Trochydd Gyddfgoch <i>Gavia stellata</i> Môr-hwyaden Ddu <i>Melanitta nigra</i>
AGA Môr Hafren / Aber Hafren SPA	Hwyaden Lwyd * <i>Anas strepera</i> Gŵydd Dalcenwyn* <i>Anser albifrons albifrons</i> Pibydd y Mawn <i>Calidris alpina</i> Hwyaden yr Eithin <i>Tadorna tadorna</i> Pibydd Coesgoch <i>Tringa totanus</i> Alarch Bewick * <i>Cygnus columbianus</i> Cornchwiglen* <i>Vanellus vanellus</i> Hwyaden Bengoch* <i>Aythya ferina</i> Hwyaden Gopog* <i>Aythya fuligula</i> Hwyaden Lostfain <i>Anas acuta</i> ** Hwyaden Lydanbig <i>Anas clypeata</i> ** Corhwyaden <i>Anas crecca</i> ** Chwiwell <i>Anas Penelope</i> ** Hwyaden Wylt <i>Anas platyrhynchos</i> ** Cwtiad Torchog <i>Charadrius hiaticula</i> ** Pioden y Môr <i>Haematopus ostralegus</i> ** Gylfinir <i>Numenius arquata</i> ** Cwtiad Llwyd <i>Pluvialis squatarola</i> **
AGA Traeth Lafan / Lavan Sands SPA	Pioden y Môr * <i>Haematopus ostralegus</i> Gylfinir * <i>Numenius arquata</i>

	Gwyach Fawr Gopog * <i>Podiceps cristatus</i>
--	---

Bydd CNC yn dechrau ymgynghori'n fuan yn 2014 ar estyn tua'r môr tair nythfa adar y môr yn AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli, AGA Sgomer a Skokholm ac AGA Ynys Gwales. Bydd manylion yr ymgynghoriad i'w gweld ar wefan CNC tua diwedd mis Ionawr 2014.

Tabl 2 Ardaloedd Cadwraeth Arbennig â nodweddion morol yng Nghymru

Cynefinoedd a rhywogaethau cymwys

Cynefinoedd Atodiad I
Bencydd tywod ag iddynt ddŵr môr bas drostynt bob amser
Aberoedd
Fflatiau llaid a fflatiau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel
Lagynau Glannauol ¹⁰
Cilfachau a baeau bas mawr
Riffiau
Strwythurau tanddwr wedi'u gwneud gan nwyon sy'n gollwng
Ogofâu môr sydd dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr
Llystyfiant unflwydd ar linellau drifft
Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill ar laid a thywod
Lleiniau o spartina (<i>Spartinion maritimae</i>)
Dolydd heli'r Iwerydd ¹¹ (<i>Glauco-Puccinellietalia maritimae</i>)
Prysgwydd halengar Môr y Canoldir a rhannau cynnes Cefnfor Iwerydd ¹² (<i>Sarcocornetea fruticosi</i>)

Rhywogaethau Atodiad II
Dolffin trwyn potel (<i>Tursiops truncatus</i>)
Llamhidydd (<i>Phocoena phocoena</i>)
Morlo llwyd (<i>Halichoerus grypus</i>)
Morlo cyffredin (<i>Phoca vitulina</i>)
Llysywen bendoll y môr (<i>Petromyzon marinus</i>)
Herlyn (<i>Alosa alosa</i>)
Gwangen (<i>Alosa fallax</i>)
Dyfrgi (<i>Lutra lutra</i>)

¹⁰ Ac eithrio lle bo ar ochr y tir o'r Penllanw Astronomegol uchaf, heb ei gysylltu'n uniongyrchol â'r môr.

¹¹ Ac eithrio lle bo ar ochr y tir o'r Penllanw Astronomegol uchaf

¹² Ac eithrio lle bo ar ochr y tir o'r Penllanw Astronomegol uchaf

Rhestr o ACAoedd

ACA	Nodwedd Forol
Y Fenai a Bae Conwy/ Menai Strait and Conwy Bay	Riffiau
	Fflatiau llaid a fflatiau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel
	Bencydd tywod ag iddynt ddŵr môr bas drostynt bob amser
	Cilfachau a baeau bas mawr
	Ogofâu môr sydd dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr
Dee Estuary/ Aber Dyfrdwy	Dolydd heli'r Iwerydd(<i>Glaucopuccinellietalia maritima</i>)
	<i>Salicornia</i> a phlanhigion unflwydd eraill ar laid a thywod
	Fflatiau llaid a fflatiau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel
	Llystyfiant unflwydd ar linellau drifft
	Aberoedd
	<i>Petromyzon marinus</i> – Llysywen bendoll y môr
Pen Llŷn a'r Sarnau/ Lleyn Peninsula and the Sarnau	Lagynau Glannauol
	Aberoedd
	Cilfachau a baeau bas mawr
	Riffiau
	Bencydd tywod ag iddynt ddŵr môr bas drostynt bob amser
	Dolydd heli'r Iwerydd(<i>Glaucopuccinellietalia maritima</i>)
	Fflatiau llaid a fflatiau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel
	Ogofâu môr sydd dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr
	<i>Salicornia</i> a phlanhigion unflwydd eraill ar laid a thywod
	<i>Halichoerus grypus</i> – morlo llwyd

ACA	Nodwedd Forol
	<i>Lutra lutra</i> – dyfrgi
	<i>Tursiops truncatus</i> – dolffin trwyn potel
Carmarthen Bay and Aberoedd/ Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd	Dolydd heli'r lwerydd(<i>Glauco-Puccinellietalia maritima</i>)
	Aberoedd
	<i>Salicornia</i> a phlanhigion unflwydd eraill ar laid a thywod
	<i>Alosa fallax</i> – Gwangen
	Cilfachau a baeau bas mawr
	Fflatiau llaid a fflatiau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel
	Bencydd tywod ag iddynt ddŵr môr bas drostynt bob amser
	<i>Petromyzon marinus</i> – Llysywen bendoll y môr
	<i>Alosa alosa</i> – Herlyn
	<i>Lutra lutra</i> – dyfrgi
Pembrokeshire Marine/ Sir Benfro Forol	Riffiau
	Aberoedd
	Cilfachau a baeau bas mawr
	Dolydd heli'r lwerydd(<i>Glauco-Puccinellietalia maritima</i>)
	Lagynau Glannauol
	Fflatiau llaid a fflatiau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel
	Bencydd tywod ag iddynt ddŵr môr bas drostynt bob amser
	Ogofâu môr sydd dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr
	<i>Halichoerus grypus</i> – morlo llwyd
	<i>Alosa fallax</i> – Gwangen
	<i>Alosa alosa</i> – Herlyn
	<i>Petromyzon marinus</i> – Llysywen bendoll y môr
	<i>Lutra lutra</i> – dyfrgi

ACA	Nodwedd Forol
Cardigan Bay/ Bae Ceredigion	Riffiau
	Bencydd tywod ag iddynt ddŵr môr bas drostynt bob amser
	Ogofâu môr sydd dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr
	<i>Tursiops truncatus</i> – dolffin trwyn potel
	<i>Halichoerus grypus</i> – morlo llwyd
	<i>Petromyzon marinus</i> – Llysywen bendoll y môr
Severn Estuary / Môr Hafren	Dolydd heli'r Iwerydd(<i>Glauco-Puccinellietalia maritima</i>)
	Aberoedd
	Fflatiau llaid a fflatiau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel
	Bencydd tywod ag iddynt ddŵr môr bas drostynt bob amser
	Riffiau
	<i>Alosa fallax</i> – Gwangen
	<i>Petromyzon marinus</i> – Llysywen bendoll y môr
Glannau Môn: Cors heli / Anglesey Coast: Saltmarsh	Dolydd heli'r Iwerydd (<i>Glauco-Puccinellietalia maritima</i>)
	<i>Salicornia</i> a phlanhigion unflwydd eraill ar laid a thywod
	Aberoedd
